



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

Diben: Penderfyniad y Comisiynydd – DLI366

Amseru: Arferol

Teitl: Gwobr am Wasanaeth Cymorth i Ddioddefwyr Damweiniau ar y Ffyrdd

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Comisiynu

Crynodeb Gweithredol:

Yn dilyn cynllun peilot blwyddyn dau a redodd tan 31 Mawrth 2025, cytunodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddau i gaffael Gwasanaeth Cymorth i Ddioddefwyr Damweiniau ar y Ffyrdd yn ffurfiol mewn partneriaeth â Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru a chyda'r potensial i'w ddatblygu yn y dyfodol yn fodel gwasanaeth Cymru Gyfan. Bydd y gwasanaeth yn darparu cefnogaeth emosiynol ac ymarferol i unigolion a theuluoedd sydd wedi colli rhywun oherwydd gwrthdrawiadau angheuol, gan gynnwys cefnogaeth arbenigol ar gyfer galar a thrawma. Bydd y gwasanaeth yn sicrhau bod cymorth arbenigol ar gael i blant.

Hysbysebwyd y cyfle tendro ar GwerthwchiGymru a thrwy'r Cyfnodolyn Swyddogol oherwydd bod gwerth y fframwaith dros drothwy'r tendr, felly roedd angen tendr y Gwasanaeth Canfod Tendr (FTS). Cyflwynwyd a derbyniwyd tri ymateb tendr yn electronig drwy eTenderWales gan gydymffurfio â deddfwriaeth caffael. Yn dilyn gwerthusiad tendr cydymffurfiol, daeth Cymorth i Ddioddefwyr yn y safle cyntaf, gan ddangos eu bod yn cynnig y gwasanaeth mwyaf manteisiol yn economaidd ac yn cydymffurfio'n dechnegol. Dyma oedd y canlyniad hefyd i lot De Cymru, sy'n golygu y bydd gwasanaeth ar y cyd yn rhedeg ar draws dwy ardal yr heddlu.

Argymhelliad:

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn cymeradwyo dyfarnu contract ar gyfer y Gwasanaeth Cymorth i Ddioddefwyr Damweiniau ar y Ffyrdd i Gymorth i Ddioddefwyr am gyfnod o dair blynedd gyda hyd at ddau estyniad fydd yn para blwyddyn yr un. Cyfanswm cost y ddarpariaeth dros y cyfnod cychwynnol o dair blynedd yw £134,733.73. Bydd cost y gwasanaeth yn cael ei ariannu drwy Gronfa Arloesi Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau.

Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu ragfarnus yn y mater hwn ac fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Mae'r argymhelliad uchod wedi cael fy nghymeradwyaeth.

Llofnod:



Dyddiad: 1/04/2025